OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1188

Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022

Personau sy'n byw neu'n gweithio mewn mangre lle y mae person sydd wedi ei anghymhwyso yn byw

8. Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae person ("P") wedi ei anghymhwyso os yw P—

(a) (i) yn byw ar yr un aelwyd â pherson arall sydd wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru, neu

(ii) yn byw ar aelwyd y mae unrhyw berson o'r fath wedi ei gyflogi ynddi, a

(b) yn gweithredu neu'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant mewn mangre ddomestig a ddefnyddir gan yr aelwyd y mae P yn aelod ohoni.